


Gweithgareddau Ysgrifennu

Llythyr Ffurfiol

Yma ceir uned o waith ar ysgrifennu llythyr ffurfiol. Mae yma sbardunau a thasgau ar dair lefel wahaniaethol yn ogystal â gridiau huanasesu i'r disgyblion. Cofiwch fod yna gyflwyniad Pwerbwynt i gyd-fynd â'r gwaith.

Gwefan ddefnyddiol:


www.bbc.co.uk/cymru/tacteg/cymraeg



CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau


Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
 - atalnod
 - atalnod llawn
 - gofynnod
 - dyfynnod
 - ebychnod
 - collnod
 - acen grom
 - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
 - ddefnyddio ffurfiau berfol
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh
7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
 - baratoi a chynllunio
 - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
 - prawf-ddarllen
 - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
 - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
 - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
 - difyrru
 - cyflwyno gwybodaeth
 - mynegi barn
 - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau
3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith
4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun.



Llys-y-Wennol,
Cwmafon,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3CM

24 ain o Awst

Cwmni Gwyliau Da,
Y Stryd Fawr,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3EE

Annwyl Syr / Fadam,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'n gwyliau i Barc Coed Pren. Roedd y gwyliau'n cael ei hysbysebu fel "gwyliau addas i deulu", ond yn anffodus roedden ni fel teulu wedi ein siomi'n fawr.

Roedd y caban pren lle roedden ni'n aros yn frwnt ofnadwy ac yn oer. Doedd dim un o'r gwresogyddion yn gweithio ac ar ôl cwyno ddwy waith ni ddaeth neb i'n gweld. Ar un adeg bu'n rhaid i ni roi bwced ar lawr i ddal y dŵr a oedd yn gollwng drwy'r to. Nid dyma'r math o le roedden ni wedi disgwyl ymlaen at gael aros ynddo.

Penderfynon ni fynd i'r pwell nofio a oedd yn cael ei hysbysebu fel "lle llawn hwyl i'r teulu cyfan". Nid dyna'r achos o gwbl. Roedd dŵr y pwell cyn oered â dŵr y môr. Roedd y llithren ddŵr ar gau ac roedd y plant wedi cael siom ofnadwy.

Gyda'r nos fe benderfynon ni fynd i'r bwyty oedd ar y campws. Dyna siom arall pan ddaeth y bwyd yn oer a di-flas i'r bwrdd. Cymaint oedd ein siom fel i ni fynd yn ôl i'r caban a phacio ein bagiau a gyrru'r daith o ddwy awr a hanner adref i'n gwelyau clyd a chynnes.

Rwy'n gobeithio na fyddwch yn annog unrhyw deulu arall i dreulio eu gwyliau yn y Parc. Carwn gael ad-daliad am bris y gwyliau gan na wnaethon ni dreulio amser yno a bod y lle yn hollol anaddas i'n teulu ni.


Yr eiddoch yn gywir,

M W Jones

Meinir Wyn Jones (mam i ddau o blant siomedig iawn)

Nodwch y nodweddion yma.

Llythyr ffurfiol




Ysgrifennwch lythyr at eich Cyngorydd lleol yn cwyno am gyflymdra'r ceir sy'n gyrru heibio i'r ysgol.

Cofiwch:

- gyflwyno eich hun;
- ddweud eich neges yn glir;
- ysgrifennu paragraff newydd i gefnogi pob pwynt;
- gloi'r llythyr gydag apêl, e.e. brawddeg sy'n gofyn am gymorth


Llythyr ffurfiol



Ysgrifennwch lythyr at eich Cynghorydd lleol yn cwyno am gyflwr y parc chwarae lleol.

Cofiwch:

- gyflwyno eich hun;
- ddweud eich neges yn glir;
- ysgrifennu paragraff newydd i gefnogi pob pwynt;
- gloi'r llythyr gydag apêl, e.e. brawddeg sy'n gofyn am gymorth




Llythyrau personol a ffurfiol



Ysgrifennwch ddau lythyr yn cwyno am gyflwr y parc chwarae lleol.
Ysgrifennwch un llythyr at eich cynghorydd lleol a'r llall at ffrind sydd
bellach wedi symud o'r ardal.

Cofiwch ddweud yr un neges ond mewn arddull gwbl wahanol!

Llythyr ffurfiol




Rydych chi wedi prynu pâr o esgidiau rhedeg newydd sbon. Fe wnaethon nhw gostio £35. Yn anffodus, ar ôl wythnos roedd y gwadnau wedi dod yn rhydd. Rydych chi wedi cael siom fawr ar ôl gwario'r holl arian. Beth fedrwch chi wneud am y peth?

Ysgrifennwch lythyr at Siop Ddillad Chwaraeon Cic! yn cwyno am yr esgidiau rhedeg.

Cofiwch:

- gyflwyno eich hun;
- ddweud eich neges yn glir;
- ysgrifennu paragraff newydd i gefnogi pob pwynt;
- gloi'r llythyr gydag apêl, e.e. brawddeg sy'n gofyn am eich arian yn ôl.



Ymadroddion defnyddiol

Paragraff cyntaf: eglurwch yn gryno y rheswm dros ysgrifennu


Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â
Ysgrifennaf atoch ynglŷn â
Ysgrifennaf mewn ymateb i'r
Mae'n bleser gennyf ysgrifennu
Mewn ymateb i'r
Deallaf fod
Carwn / Hoffwn ddatgan

Cyflwyno'r dadleuon yn eglur: cofiwch ddechrau paragraff newydd ar gyfer pob pwynt

Rwy'n meddwl / credu / teimlo / gefnogol / sicr / cytuno / anghytuno
Rwyf o'r farn
Yn fy marn i
Mae'r syniad / Dydy'r syniad
Efallai
O bosibl
Dydw i ddim yn cytuno / credu / teimlo / gefnogol
Wedi ystyried / trafod
Credaf / Teimlaf / Dymunaf
Rydyn ni wedi penderfynu

Rhaid gorffen y llythyr gydag apêl— crynhowch y brif neges ac yna gofynnwch am ymateb. Cofiwch fod yn gadarn ond yn gwrtais.

Rwy'n gobeithio / credu / teimlo
Edrychaf ymlaen
Byddwn yn ddiolchgar / gwerthfawrogi
Gallaf eich sicrhau y byddwn
Hyderaf y byddwch yn barod i ystyried
Hoffwn eich sicrhau
Rhaid i mi ddatgan
Tybed a fydddech gystal â
Gan obeithio
Gobeithiaf glywed gennych yn fuan



dy gyfeiriad →

rhif / enw'r tŷ,
enw'r stryd,
enw'r pentref,
enw'r dref agosaf,
enw'r sir,
côd post

dyddiad heddiw

← **Cyfeiriad y derbynnydd**

enw,
enw'r cwmni,
enw'r pentref,
enw'r dref,
enw'r sir,
côd post

Annwyl **enw'r person os gwyddoch ei enw neu Syr / Fadam** .

Paragraff cyntaf:

- cyfle i gyflwyno eich hun
- eglurwch bwrpas y llythyr

Paragraffau i ddilyn:

- ysgrifennwch baragraff ar gyfer pob pwynt

Brawddeg gadarn i gloi sydd yn crynhoi'r brif neges

**Yr eiddoch yn gywir,
(eich llofnod chi)**

e.e. Annwyl Mr Evans /
Annwyl Syr / Annwyl Fadam

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â

.....

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â

Ysgrifennaf mewn ymateb i'r

Yn fy marn i


Rwy'n meddwl / credu / teimlo /

cytuno / anghytuno

Dydw i ddim yn cytuno

Rwy'n gobeithio

Byddwn yn ddiolchgar pe baech



Annwyl _____ ,




e.e. Annwyl Mr Evans /
Annwyl Syr / Annwyl Fadarn

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â
.....

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â
Ysgrifennaf mewn ymateb i'r

Yn fy marn i
Rwy'n meddwl / credu / teimlo /
cytuno / anghytuno
Dydw i ddim yn cytuno

Rwy'n gobeithio
Byddwn yn ddiolchgar pe baech



Llythyr Ffurfiol

Ydy eich cyfeiriad chi yn y lle cywir?	
Ydy cyfeiriad y derbynnydd yn y lle cywir?	
Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu'n iawn?	
Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl o e.e. o Fai?	
Oes dwy <n> yn Annwyl?	
Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd?	
Oes paragraff newydd ar gyfer pob pwynt?	
Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :



Llythyr Ffurfiol

Papur â phennawd
cyfeiriad yr anfonwr, rhif ffôn

Enw a chyfeiriad
y person sy'n
derbyn y llythyr

Dyddiad heddiw

Annwyl.....,

Paragraff agoriadol

Paragraffau ychwanegol - un i bob pwynt.

Llinell i gloi

Eich llofnod chi

Os byddwch yn
defnyddio prosesydd
geiriau dilynwch
gynllun y llythyr
ffurfiol

(a) enw'r person
sy'n derbyn y llythyr,
os gwyddoch ei enw, neu
(b) Annwyl Fadam/Syr

e.e.
Yr eiddoch yn gywir
Yn gywir

Esiampl allan o:
Dyddiaduron a Llythyron

(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)


e.e. Annwyl Mr Evans /
Annwyl Syr / Annwyl Fadam

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â
Ysgrifennaf atoch ynglŷn â
Ysgrifennaf mewn ymateb i'r

Yn fy marn i
Rwy'n meddwl / credu / teimlo /
cytuno / anghytuno
Dydw i ddim yn cytuno


Rwy'n gobeithio
Byddwn yn ddiolchgar pe baech





Annwyl _____,


This image shows a single sheet of white paper with horizontal blue ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.




Llythyr Ffurfiol

Ydy'r cyfeiriad yn y lle cywir?	
Ydy cyfeiriad y derbynnydd yn y lle cywir?	
Ydy'r dyddiad wedi ei ysgrifennu yn y lle cywir?	
Ydy'r mis wedi ei dreiglo ar ôl o e.e. o Fai?	
Oes dwy <n> yn Annwyl?	
Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd?	
Oes paragraff ar gyfer pob pwynt?	
Oes defnydd o ymadroddion ffurfiol?	
Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :



Llythyr Ffurfiol



Esiampl allan o:
Dyddiaduron a Llythyron
(Sue Palmer
addasiad Cymraeg gan
Delyth Eynon)

Mewn llythyr ffurfiol dylid anelu at ddefnyddio iaith mwy ffurfiol.

Gellir gwneud hyn drwy:

- ♦ ddefnyddio'r person cyntaf, e.e. Rydw i / Rwy'n ...
- ♦ gyfeirio at yr ail berson drwy ddefnyddio **chi** bob tro
 - ♦ ddefnyddio iaith sy'n glir
- ♦ ddefnyddio cysyllteiriau ffurfiol, e.e. Heblaw hynny / Yn ogystal â / Fodd bynnag / Serch hynny



Llythyr Ffurfiol

Hunanasesu



Ydy'r ddau gyfeiriad yn y lle cywir?	
Ydy'r dyddiad yn gywir?	
Oes dwy <n> yn Annwyl?	
Oes priflythrennau ar ddechrau enwau pobl a llefydd?	
Oes paragraff ar gyfer pob pwynt yma?	
Oes defnydd o gysyllteiriau ffurfiol yma?	
Oes defnydd o iaith ffurfiol ei naws yma?	
Ydy'r llythyr wedi ei gloi yn y ffordd gywir?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn: